

## CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 3ydd Mawrth, 2016

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Brython Davies, Eluned Evans, Phil Lloyd, a'r Cyng. Rhodri Davies.

### 1. **YMDDIHEURIADAU**

Jane Hopkins, Alun Jenkins, Rhodri Jenkins, Elise Powell, James Raw.

### 2. **COFNODION 4ydd Chwefror, 2016**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

### 3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

(a) Dŵr yng Nghwmystwyth ger Gate Cottage  
Dim mwy i'w adrodd.

(b) Blychau Ffon BT  
Ni dderbyniwyd ymateb wrth BT hyd yn hyn yn ymwneud â phwrcasu'r blychau ffôn. Y Clerc i ddilyn lan.

(c) Materion angen dilyn lan gyda Chyngor Sir Ceredigion gan na dderbyniwyd ymateb:

Coed ymyl y chwarel gyferbyn â'r llyn yn Nhrisant yn ymestyn allan i'r ffordd.

Coeden leylandii yn ymestyn allan i'r palmant gyferbyn a'r Gofgolofn ym Mhontarfynach.

Wal ym Mhontartwll, Cwmystwyth wedi cwmpo ers peth amser a'r Clerc i gysylltu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i ymholi beth yw'r sefyllfa.

Angen atgyweirio'r arwyddion ffyrdd ger y Gof Golofn.

Dail coed wedi gwasgaru ar y ffordd yn Nhrisant.

Y ffordd yn rhoi ar y llaw dde wrth fynd mewn i New Row o ochr Lletysynod.

Ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth, yr angen i barhau i ofyn i'r Cyngor Sir i ddodi rhwystrau damwain ar ochr y ffordd yn y man ble mae tâp oren wedi doddi ar hyn o bryd.

Tyllai yn y ffordd mewn nifer o leoliadau yn yr ardal angen sylw brys yn enwedig yng Nghwmystwyth .

(ch) Rhoddion

Derbyniwyd ohebiaeth o werthfawrogiad wrth Y Ddolen, Clwb Ffermwyr Ifainc Trisant a Chylch Meithrin Penllwyn am y rhoddion ariannol diweddar.

### 4. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

(a) Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

Derbyniwyd llythyr a gyfeiriwyd at Gyngorau Thref a Chymuned Ceredigion wrth Gyngor Sir Ceredigion yn ymholi am ddiddordebau ar gyfer safle addas ar gyfer lleoli Eisteddfod Genedlaethol yn 2020. Cytunwyd nad oedd lleoliad addas ar gael yn ardal Cyngor Bro Pontarfynach a'r Clerc i ymateb fel y nodir.

- (b) Adolygiad o Gludiant ôl 16 rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg a'r Ddarpariaeth Seddi Gwag

Derbyniwyd y dogfennau adolygiad uchod wrth Gyngor Sir Ceredigion a chafwyd trafodaeth am y bwriad sef i godi tâl o £390 y flwyddyn ar ddisgyblion penodol sy'n cwmpo i'r categori uchod.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ymateb drwy wrthwynebu i'r bwriad gan nodi na fyddai rhai teuluoedd yn medru fforddio'r costau ychwanegol ac yn cael hi'n anodd i chwilio cyllid ychwanegol er mwyn i'w plant medru parhau mewn addysgol ôl 16.

Cydnabyddir fod yna gronfa Lwfans Cynhaliaeth Addysgol ar gael i deuluoedd ar incwm isel ond dylai'r arian yma gael ei ddefnyddio at gefnogi elfen addysgol y disgybl mewn addysg ac nid yw defnyddio i gefnogi'r Cyngor lleol i wneud arbedion ariannol.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Bro Trawsgoed yn annog y Cyngor Bro i wrthwynebu'r cynnig arfaethedig.

- (c) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ble y cyfeiriwyd yn Adran 10 at *Daliadau i Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned* a'r angen i'r Cyngor Bro wneud penderfyniad a fyddid yn codi tâl am wasanaethau'r Cyngorwyr o fewn y Cyngor Bro.

Cytunwyd i ohirio'r drafodaeth hyd y cyfarfod nesaf ble byddai mwy o'r aelodau yn bresennol i gael penderfyniad teg.

## 5. CYLLID

- (a) Derbyniwyd anfoneb wrth Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer llogi Ysgol Mynach ar gyfer cynnal cyfarfodydd dros y flwyddyn. Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £180 (£150.00 a £30.00 TAW).

Cynigiwyd y taliad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

- (b) Cytunwyd i dalu cyflog a chostau i'r Clerc - £518.94 (£489.60 cyflog a £86.27 costau) o 1af Medi, 2015 - 31ain Mawrth, 2016 a £122.40 i HMRC ar gyfer PAYE y Clerc. Cynigiwyd y taliad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

## 6. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Adroddwyd nad oedd yr arwydd 'Ildiwch/Stop' ar y gyffordd yng Nghwmystwyth o gyfeiriad Rhiw Ysgoldy Coch yno bellach a rhagwelwyd ei fod wedi ei ddwyn.

- (b) Derbyniwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd pam nad oedd cais cynllunio wedi cyflwyno ar gyfer carafan sefydlog a gyrhaeddodd Glanfedw, Pontarfynach yn ddiweddar.

Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at yr uchod.

## 7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 7fed Ebrill, 2016 yn Ysgol Mynach am 7.30 y.h.